
# Gerddi Agored Dolwyddelan 2024



Cafodd digwyddiad codi arian Sant Gwyddelan ei gynnal ar ddydd Sadwrn Gorffennaf 27$^{ain}$ eleni, gyda'r heulwen a'r rhan fwyaf o bobl yn cyrraedd ychydig yn hwyrach na'r amser dechrau o 10 o'r gloch. Gyda 16 cystadleuydd a phedair gardd newydd i edrych o'u cwmpas, gan gynnwys rhandiroedd yr ardd gymunedol wrth y pafiliwn i'w gweld, paned ar gael, planhigion i'w prynu a barddoniaeth i'w mwynhau, roedd rhywbeth yno i bawb.

*'Diwrnod hyfryd, rydym ni wirioneddol wedi mwynhau,*
*diolch yn fawr' (trigolyn lleol)*

Roedd yn hyfryd gweld nifer o erddi yn 'garddio er budd bioamrywiaeth', gyda dolydd glaswellt a blodau, toeau bywlys a llawer o ffrwythau a llysiau yn tyfu.



Os oes gennych chi ddiddordeb mewn agor eich gardd i bobl gael golwg arni y flwyddyn nesaf, y dyddiad am y tro ydy Mehefin 7$^{fed}$ 2025, a chysylltwch gyda Sue Layland ar sue.layland@gmail.com

Diolch yn fawr iawn i bawb gymerodd ran a fu'n cefnogi'r gerddi agored eleni, edrychwn ymlaen at eich gweld unwaith eto yn 2025.

*Mae Eglwys Sant Gwyddelan yn rhan o weinidogaeth Bro Gwydyr. Mae gwybodaeth am wasanaethau a digwyddiadau ar gael ar wefan https://brogwydyr.cymru lle mae modd cofrestru ar gyfer ein cylchlythyr wythnosol a'n tudalen Facebook www.facebook.com/StGwyddelan*